Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 29.10.20 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>Mae Estyn yn cefnogi egwyddorion cyffredinol drafft arfaethedig Cod ADY Pennod 31: Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol.<br><br>Rydym yn cydnabod bod angen i'r ddarpariaeth hon gyd-fynd â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.<br><br>Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cael cynrychiolwyr a phrotocolau sy'n gallu cefnogi pobl ifanc a rhieni plant yn eu dewis iaith, yn enwedig ar gyfer y rhai ag ADY. Dylai plant, pobl ifanc a rhieni gael cyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn hyderus ac yn glir yn eu dewis iaith, er mwyn sicrhau gofal a chymorth priodol. Gellid cryfhau'r cynigion ymhellach ym mharagraff 1.3 y bennod ar y cod drafft trwy ychwanegu cyfeiriad eglur at y Gymraeg fel dewis iaith posibl: *Pwysigrwydd rhoi iddynt y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny <u>yn Gymraeg neu yn Saesneg.</u>* |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1 –** A yw'r darpariaethau ar gyfer dehongli rhiant plentyn fel y cynrychiolydd, neu'r rhiant a'r cynrychiolydd fel ei gilydd, mewn achosion lle nad oes gan y rhiant hwnnw alluedd meddyliol, yn briodol?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ymhellach, sy'n datgan y dylai gwasanaethau cyhoeddus a llywodraethau roi rhyddid a chyfleoedd i blant fynegi eu safbwyntiau, a bod rhaid i wasanaeth llywodraeth ystyried eu safbwyntiau mewn ffordd ystyrlon.<br><br>Mae'r bennod hon yn atgyfnerthu ei bod yn bwysig i blant gael eu cefnogi gan eu rhiant neu'u cynrychiolydd i wneud cyfraniadau pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu Hanghenion Dysgu Ychwanegol. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i'w safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Dylid rhoi'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i blant a'u rhieni neu'u cynrychiolwyr er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny. |

**Cwestiwn 2 –** A yw'r darpariaethau ar gyfer dehongli person ifanc fel y cynrychiolydd, neu'r cynrychiolydd a'r person ifanc, mewn achosion lle nad oes gan y person ifanc hwnnw alluedd meddyliol, yn briodol?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno bod y darpariaethau ar gyfer dehongli person ifanc fel y cynrychiolydd, neu'r cynrychiolydd a'r person ifanc fel ei gilydd, mewn achosion lle nad oes gan y person ifanc alluedd, yn briodol.<br><br>Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y bennod hon ar y cod yn galluogi pobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol i gyfranogi mor llawn ag y bo modd yn y broses gwneud penderfyniadau, ac arfer eu hawliau yn ôl yr angen. Mae cynrychiolaeth gefnogol briodol yn sicrhau bod hawliau person ifanc yn cael eu gwireddu er eu lles nhw. |

**Cwestiwn 3** – Mae'r darpariaethau yn y bennod ddrafft ar y rheoliadau a'r cod yn caniatáu i riant person ifanc, lle nad oes cynrychiolydd gan y person ifanc (fel y diffinnir yn rheoliad 2), weithredu fel ei gynrychiolydd. A yw'r cynnig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i unigolion wneud eu penderfyniadau eu hunain, a chaniatáu i gynrychiolwyr wneud penderfyniad ar ran yr unigolion hynny nad oes ganddynt alluedd?

| **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Yn achos rhiant yn gweithredu fel cynrychiolydd person ifanc, rydm yn cydnabod egwyddorion cyffredinol y bennod ar y cod i gefnogi'r person ifanc i wneud ei benderfyniadau ei hun. Bydd y rhan fwyaf o rieni yn gwneud penderfyniadau er lles person ifanc. Dylai fod ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y person ifanc, a dylent wybod sut orau i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. |

**Cwestiwn 4** – A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â'r bennod ddrafft ar y rheoliadau neu'r cod?

| |
|---|
| Dim sylwadau pellach. |

**Cwestiynau gorfodol**

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod eich safbwyntiau ar yr effeithiau y byddai cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol, yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai effeithiau hyn, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

i) Rydym yn cydnabod cydraddoldeb ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn yr holl ddarpariaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cael cynrychiolwyr sy'n gallu cefnogi pobl ifanc a rhieni plant yn eu dewis iaith. Mae cyfathrebu yn eich mamiaith yn hynod bwysig wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Mae darparu cymorth priodol gan weithwyr proffesiynol yn y dewis iaith yn ganolog i ddiwallu anghenion ADY plant a phobl ifanc â pharch ac urddas. Dylai plant, pobl ifanc a rhieni gael cyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn hyderus ac yn glir yn eu dewis iaith er mwyn sicrhau gofal a chymorth priodol.

ii) Dylid darparu gwybodaeth ac adnoddau hygyrch yn Gymraeg a Saesneg er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni neu'u cynrychiolwyr. Credwn ei bod yn bwysig fod gan yr holl gyrff perthnasol ddarpariaeth deg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth ddigonol o ran cynrychiolwyr sy'n siarad Cymraeg, ac aelodau tribiwnlys sy'n siarad Cymraeg, os bydd angen.

**Cwestiwn 6** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y cynigion, er mwyn:

i) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) peidio â chael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd am gydraddoldeb a darpariaeth ieithyddol gyfreithiol yn yr holl faterion ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

Gellid cryfhau'r cynigion ymhellach ym mharagraff 1.3 y bennod ddrafft ar y cod trwy ychwanegu cyfeiriad eglur at y Gymraeg fel y dewis iaith posibl:

*Pwysigrwydd rhoi iddynt y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny* <u>*yn Gymraeg neu yn Saesneg.*</u>

**Cwestiwn 7 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i sôn amdanynt.

Dim sylw pellach

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐